**CABINET**
**DECISION RECORDING LOG**

**DECISION DETERMINED ON: Dydd Mercher, 28 Chwefror 2018**

**DECSION WILL COME INTO EFFECT ON: Manually Type Call in Date**
*Decisions made by full cabinet and individual cabinet members are subject to "Call-in" by the appropriate Select Committee. Should a decision be subject to call-in it will not take effect as stated above and will be presented again at a later date.*

**CABINET MEMBERS PRESENT:**

County Councillors P.A. Fox, R.J.W. Greenland, R.John, S.B. Jones, P. Jones, P. Jordan and P. Murphy

**OTHER ELECTED MEMBERS PRESENT:**

County Councillors D. Batrouni

**OFFICERS PRESENT**

Kellie Beirne, Peter Davies, Roger Hoggins, Mark Howcroft, Paul Matthews, Robert Tranter and Nicola Perry

| Item Number | Title | Purpose, Consultation & Author | Declaration of Interests | Decision |
|---|---|---|---|---|
| **3a** | Cyllideb Refeniw a Chyfalaf 2018/19 - Cynigion Terfynol yn dilyn ymgynghori cyhoeddus | As set out in the report | | RESOLVED:<br>Bod y Cabinet yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghori ac yn argymell i'r Cyngor:<br>• Y gyllideb refeniw ar gyfer 2018/19 fel yr atodir yn **Atodiad I**.<br>• Y rhaglen gyfalaf 2018/19 i 2021/22 fel yr atodir yn **Atodiad J1.**<br><br>Bod y Cabinet yn cymeradwyo blaen argymhelliad i'r Cyngor i newidiadau yn y rhaglen gyfalaf y tynnir sylw ati ym mharagraff 3.17 isod, ac yn benodol i ganiatáu i gyfraniad o £ 1.487m gael ei dalu o'r rhaglen gyfalaf bresennol cyn diwedd 2017-18.<br><br>Bod cynnydd o 4.95% yn y dreth gyngor gyfwerth â band "D" ar gyfer y Sir yn parhau i gael ei ddefnyddio fel y dybiaeth gynllunio yn y model cyllidebol a chymhwyso at bwrpasau sirol yn 2018/19.<br><br>Bod y Cabinet yn cymeradwyo ailgyfeirio £155,000 o arian wrth gefn wedi'i glustnodi o gronfa Gydraddoli'r Trysorlys i'r gronfa Fuddsoddi Flaenoriaethol i alluogi blaenoriaethau polisi yn y dyfodol.<br><br>Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r cynigion cynilo angenrheidiol, yn nodi'r symudiadau a ragwelir mewn perthynas â chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi yn ystod 2018/19 gan arwain at ragolwg balans wrth gefn wedi'i glustnodi o £4,950,000 ar ddiwedd 2018/19.<br><br>Bod y Cabinet yn argymell y Cyngor i waredu'r asedau a nodwyd yn y papur cefndir eithriedig ar ei werth gorau.<br><br>Bod y Cabinet yn ystyried adroddiad y Swyddog Ariannol Cyfrifol ar gadernid proses y gyllideb a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn a gyhoeddwyd o dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2003. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Bod y Cabinet yn mabwysiadu adroddiad y Swyddog ar Ddangosyddion Darbodus.<br><br>Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r canlynol:<br>:<br><br>Bod gwaith pellach yn cael ei gyflawni i ddatblygu Cynllun Ariannol Tymor Canolig cytbwys (CATC) dros y cyfnod o 3 blynedd o 2019/20 i 2021/22.<br>• Bod y CATC yn cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn parhau'n gyfredol. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **3b** | Theatr y Fwrdeistref, Y Fenni | As set out in the report | | RESOLVED:<br><br>Cytuno i derfynu prydles y Cyngor ar unwaith ac o ganlyniad ei Gytundeb Rheoli gydag Ymddiriedolaeth Theatr y Fwrdeistref ar gyfer Theatr y Fenni.<br><br>Wrth gytuno 2.1, esgusodi holl Ymddiriedolwyr Theatr y Fwrdeistref mewn termau absoliwt o unrhyw rwymedigaethau atgyweirio a chynnal a chadw sydd heb eu cyflawni ar gyfer yr adeilad. Amcangyfrifir mai £119,611 yw'r rhain a bydd y Cyngor yn gyfrifol am benderfynu a fydd model hyfyw ar gyfer y Theatr y tu hwnt i'r cyfnod o 6 mis cychwynnol.<br><br>Mae'r Cyngor yn cytuno i ymgymryd â throsglwyddiad TUPE o chwe chyflogai presennol y theatr ar sail eu telerau a'u hamodau cyfredol. Wrth wneud hynny, mae'r Cabinet yn derbyn ei fod yn wynebu risg o orfod talu costau diswyddo ar gyfer yr unigolion hyn os na cheir model parhaus hyfyw ar gyfer y Theatr.<br><br>Cytuno bod adnoddau presennol tîm Economi a Menter y Cyngor yn cael eu defnyddio i gynorthwyo gydag arwain a rheoli yn y cyfnod o chwe mis pan gaiff hyfywedd y theatr yn y dyfodol ei ystyried. |
| **Additional Information:** | | | | |